CYNGOR SIR YNYS MÔN

fnodion y Cyfarfod Blynyddol a ohiriwyd, a gynhaliwyd yn rhithiol ar 31 Mai 2022

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd) Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Alun W Mummery, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio A Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen P Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth Interim (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ), Swyddog Cyfathrebiadau (GJ), Swyddog Pwyllgorau (MEH).
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Paul Ellis, Gary Pritchard a Margaret Murley Roberts

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

2. CYHOEDDIADAU

Dim.

3. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd y canlynol fel y rhai yr oedd wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

Cynghorydd Carwyn Jones (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Ddatblygiad Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth;
Cynghorydd Alun W Mummery gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol.
Cynghorydd Gary Pritchard gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Blant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid;
Cynghorydd Alun Roberts gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Wasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol);
Cynghorydd Nicola Roberts gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;

Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Briffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;
Cynghorydd Ieuan Williams gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Addysg a'r laith Gymraeg;
Cynghorydd Robin Williams gyda chyfrifoldeb Aelod Portffolio am Gyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer.

4. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o Gyfansoddiad y Cyngor, **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2022/2023.**

5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.5 o'r Cyfansoddiad).

6. RHAGLEN CYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR

PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd arferol y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:-

- **13 Medi, 2022 - 2.00 p.m.**
- **6 Rhagfyr, 2022 - 2.00 p.m.**
- **9 Mawrth, 2023 - 2.00 p.m.**
- **Mai, 2023 - (dyddiad i'w gadarnhau)**

7. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CYNGHORWYR I BWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros dro mewn perthynas â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer eu hystyried.

PENDERFYNWYD:-

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y nodir yn yr adroddiad;**
- **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

8. PENODIAD I GYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros dro mewn perthynas â threfniadau Penodi i Gyrff allanol ar gyfer ystyriaeth.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor welliant i'r gynrychiolaeth Aelodau Etholedig ar y Pwyllgor Safonau gyda'r Cynghorydd Dafydd R Thomas yn lle'r Cynghorydd Dafydd Roberts fel a nodwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:-

- **cytuno ar a chadarnhau'r penodiadau fel y nodir yn yr atodlen i'r adroddiad;**
- **bod y Cynghorydd Dafydd R Thomas yn dod yn gynrychiolydd Aelodau Etholedig ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Dafydd Roberts.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS
CADEIRYDD